

Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr



Y myth Mae iechyd a diogelwch wedi rhoi diwedd ar gandï-fflos

Y gwirionedd Pan ddaw haul yr haf pa ffordd well o goroni diwrnod i'r brenin na bwyta candï-fflos hen ffasiwn?

Onid os credwch benawdau rhai papurau newydd mae'r melysfwyd hoff hwn dan fgythiad – oherwydd peryglon yn ymwneud â'r pren y caiff ei droelli o'i gwmpas.

Y gwir amdani yw nad oes unrhyw gyfreithiau iechyd a diogelwch yn gwahardd candï-fflos ar bren.

A yw ffurf draddodiadol y melysfwyd hwn yn diflannu oherwydd ei bod yn haws ei fasgynhyrchu a'i storio mewn bagiau plastig? Pwy a wŷr, ond yn sicr nid iechyd a diogelwch sy'n gadael blas cas yng nghegau pobl.